

## Tasg 1

# Hanes y bleidlais

1. Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

		Cywir	Anghywir
1.	Roedd gan bawb hawl i bleidleisio cyn 1918.		
2.	Swffragetiaid oedd yr enw ar y menywod a fu'n ymgyrchu dros gael y bleidlais.		
3.	Gwnaeth menywod gyfraniad mawr i'r ymdrech ryfel rhwng 1914-18.		
4.	Cafodd pob menyw'r bleidlais yn 1918.		
5.	Yn 1918, cafodd pob dyn 21 oed a throsodd y bleidlais.		
6.	Ers 1969 mae pawb dros 16 oed yn cael pleidleisio.		

2.

Darllenwch y gerdd a chysylltwch y cam yn hanes cael y bleidlais â'r dyddiad cywir.

1928	Dynion 21 oed a throsodd a menywod 30 a throsodd oed yn cael pleidleisio.
1969	Dim ond dynion ag eiddo oedd yn cael pleidleisio.
1918	Menywod 21 oed a throsodd yn cael pleidleisio.
Cyn 1918	Pawb 18 oed a throsodd yn cael y bleidlais.

3.

Pam roedd y sefyllfa cyn 1918 yn annheg?

4.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, 1914–1918, cafodd llawer o fenywod gyfle i weithio'r tu allan i'r cartref am y tro cyntaf erioed. Beth mae'r gerdd yn ei awgrymu am yr effaith a gafodd hyn ar fenywod yn cael y bleidlais yn 1918?

5.

Pam roedd y sefyllfa yn 1918 yn annheg i fenywod?

6.

Darllenwch **bennill olaf** y gerdd eto.

Beth yw barn yr un a ysgrifennodd y gerdd am y rhai nad ydyn nhw'n mynd i bleidleisio?

A ydych chi'n cytuno â'r farn hon?

A ydy darllen y gerdd wedi cael effaith ar eich barn?

A fyddwch chi'n mynd i bleidleisio pan fyddwch chi'n 18 oed?

Tua 42% o etholwyr Cymru a bleidleisiodd yn etholiadau'r Cynulliad yn 2011. Ydy'r ganran hon yn syndod i chi?

- Pam nad yw pobl yn pleidleisio, yn eich barn chi?
- Ai'r **ffordd** rydyn ni'n pleidleisio ym Mhrydain yw'r problem? Hynny yw, rhaid mynd i mewn i fwth a rhoi croes ar bapur. Oes ffyrdd haws a fyddai'n codi canran y rhai sy'n pleidleisio?

Mewn rhai gwledydd, e.e. Awstralia, mae pleidleisio yn **orfodol** ac mae cosb os nad ydych chi'n pleidleisio – sef dirwy o \$20 doler Awstralia y tro cyntaf i chi beidio â phleidleisio, a \$50 os ydych chi wedi peidio â phleidleisio o'r blaen. Os ydych chi'n gwrthod talu'r ddirwy, efallai bydd rhaid i chi fynd o flaen llys a chael dirwy o \$170 doler Awstralia. Hefyd, bydd trosedd yn cael ei chofnodi yn erbyn eich enw.

Ydych chi'n meddwl y dylen ni gyflwyno system debyg yng Nghymru? Trafodwch â phartner, gan feddwl am ddadleuon o blaid ac yn erbyn.

Dadleuon o blaid pleidleisio gorfodol	Dadleuon yn erbyn pleidleisio gorfodol

Ymchwiliwch i weld beth yw gwerth un ddoler Awstralia mewn punnoedd. Faint yw \$20, \$50 a \$170 mewn punnoedd?

Ydych chi'n gwybod am wledydd yn y byd lle does gan **neb** hawl i bleidleisio? Ymchwiliwch.

7.

O'r gerdd, **dewiswch a chopiwch** y geiriau sy'n golygu:

cyfoethog

gweithio'n galed iawn

pwysu am, hawlio

dymuniad neu awydd cryf

mwy nag un arwres

mwy nag un bwth (pleidleisio)

cafodd ei wneud yn is

poeni, becso

8.

Edrychwch ar defnydd o'r sillgoll yn yr enghreifftiau hyn. Mae'r sillgoll, fel mae'r enw'n ei awgrymu, yn dangos bod ran neu sill ar goll. Ysgrifennwch y gair yn llawn wrth ymyl pob enghraifft

### Y gair/geiriau yn llawn

A bu **'na** gryn brotestio

Doedd hynny ddim 'run fath

**Ca'dd** hynny ei gywiro.

**'Mhen** degawd rhoddwyd hawl

"..Am fwrw **'mhleidlais** y tro hwn."

Sut mae rhai o'r enghreifftiau uchod o gymorth i'r bardd?

9.

Edrychwch ar **fydr ac odl** y gerdd. Beth yw'r patrwm?

Edrychwch ar eiriau olaf pob llinell. Penderfynwch a ydyn nhw'n eiriau **acennog** neu'n eiriau **diacen**.

Oes patrwm yn y ffordd y maen nhw'n ymddangos yn y gerdd?

Gwnewch restr o eiriau acennog a diacen – meddyliwch am unrhyw air ar hap, a phenderfynu a yw'n acennog neu'n ddiacen.